# YSGOL BRYNREFAIL

# ADDYSG BERSONOL a CHYMDEITHASOL
## BLWYDDYN 10



Y mae dosbarth 10E yn dilyn cwrs 'Pathfinder',gyda chymorth eu hathrawes Ms Alaw Llwyd, sy'n eu cymhorthi i ganolbwyntio ar yrfaoedd y byddent efallai a diddordeb ynddynt yn y dyfodol. Mae'r cwrs yn rhoi rhestr o 20 swydd iddynt sy'n cyd-fynd a'u diddordebau a'u sgiliau.
Yn y lluniau fe welwch fyfyrwyr blwyddyn 10E yn Llyfrgell yr Ysgol yn chwilio am gwmnïau neu golegau ac yn eu llythyru i ofyn am fwy o wybodaeth am y swyddi neu'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig ganddynt.
Y mae'r rhaglen Pathfinder yn canolbwyntio , yn y dechrau cychwyn, ar ddiddordebau unigolion, a'r dull o weithio sydd orau ganddynt.Yna mae'r rhaglen yn cydweddu y gofynion cynnar hyn gyda swyddi, gyrfaoedd neu addysg bellach yn nhermau pynciau neu gyrsiau.

